Hud a'r Goruwchnaturiol yn yr Oesoedd Canol a'r Cyfnod Modern Cynnar

Cynhadledd Ôl-raddedig: 21 Gorffennaf 2015

Prifysgol Caerdydd

Mae dealltwriaeth o hud a'r goruwchnaturiol yn hanfodol wrth astudio'r Oesoedd Canol a'r cyfnod modern cynnar. Roedd hud yn rhan o fywyd pob dydd, diwylliant cyffredinol a dychymyg poblogaidd. Talcen caled oedd ceisio ei ddiffinio hefyd oherwydd bod gan fod iddo sawl ystyr a ffurf ar bob lefel o gymdeithas. Oherwydd hynny, roedd amrywiaeth eang o arferion, gan gynnwys rhai oedd yn seiliedig ar gredoau traddodiadol yn ogystal â defodau lled-grefyddol. Fel ffordd o ddeall a cheisio rheoli'r byd cymdeithasol, ysbrydol a naturiol, gallai fod yn gysur ac yn fygythiad fel ei gilydd i arferion sefydliedig. Rydym yn croesawu papurau sy'n ystyried pwysigrwydd hud a'r goruwchnaturiol mewn ffyrdd o feddwl yn y Canol Oesoedd a'r cyfnod modern cynnar.

Dyma rai pynciau a awgrymir, ond mae croeso i chi ddewis rhai eraill:

- *Hud a chrefydd*
- *Hud a gwyddoniaeth*
- *Agweddau at hud a'r goruwchnaturiol*
- *Ffuglen wyddonol a ffantasi*
- *Alcemi*
- *Hud defodol*
- *Seicoleg hud*
- *Hud a thechnoleg*
- *Dewiniaid a phobl gyfrwys*
- *Astroleg*
- *Angylion a chythreuliaid*
- *Ysbrydion a drychiolaethau*
- *Dewiniaeth*
- *Meddygaeth ac anatomeg*
- *Symud siapiau*
- *Creaduriaid goruwchnaturiol*
- *Arallfydoedd*
- *Proffwydoliaeth a breuddwydion*
- *Meirw-ddewiniaeth a chastiau dewin*

Rydym yn croesawu crynodebau gan fyfyrwyr ôl-raddedig ac ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfaoedd am bob agwedd ar y pwnc hwn. Gall fod mewn llenyddiaeth, hanes, pensaernïaeth, archaeoleg, celf a cherddoriaeth ganoloesol a modern cynnar.

Anfonwch grynodebau 200-300 gair ar gyfer papurau hyd at 20 munud o hyd at supernatural@caerdydd.ac.uk erbyn dydd Llun 25 Mai 2015.

Bydd y gynhadledd yn cynnwys anerchiad gan yr **Athro Ronald Hutton** o **Brifysgol Bryste**.